ADOLYGIAD CYNTAF Y CYNLLUN GWASTRAFF RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU

CYFARFOD O'R GRŴP SWYDDOGION TECHNEGOL RHANBARTHOL

Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 8 Mawrth 2006, am 10.30am yn Siambr y Cyngor, Canolfan Ddinesig Penllergaer.

Yn bresennol

Geoff White (Cadeirydd)	CBS Castell-nedd Port Talbot
Ceri Morris	CBS Castell-nedd Port Talbot
Howell Beaton	CBS Castell-nedd Port Talbot
Carol A Williams	CS Benfro / APCASB
Dave Harries	CS Benfro
Neil Bateman	Cyngor Sir Gaerfyrddin
Hugh Towns	Cyngor Sir Gaerfyrddin
Alison Thomas	Dinas a Sir Abertawe
Steve Bool	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont
Philip Marks	CYLCH
Karen Maddock-Jones	CCW
Graham Bishop	Ymddiriedolaeth yr Amgylchedd Cymru
Graham Dorrington	Cyngor Sir Ceredigion
Audrey Evans	Asiantaeth yr Amgylchedd (De-orllewin Cymru)
Miranda Lewis	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Mark Watson	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Sue Martin	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Jo Smith	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Adrian Jones	Llywodraeth Cynulliad Cymru (Uned Strategaeth Gwastraff)

1. **Ymddiheuriadau**

Nick Oakes	Cyngor Sir Ceredigion
Huw Jenkins	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont
Roy Probert	Dinas a Sir Abertawe
Ruth Brown	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

2. **Cofnodion cyfarfod y Grŵp Technegol a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2006**

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir.

Eitem 2: Protocol ar gyfer Ymchwil Fapio GIS – Nododd SM y caiff drafft presennol y Protocol ei addasu i gynnwys cyfeiriad at safleoedd REGIS a nodwyd yn yr Ardal Chwilio gyntaf a sut y dylid ymagweddu at hyn. **Gweithredu**: SM i ddosbarthu'r Protocol pan gaiff ei gwblhau.

Unwaith eto gofynnwyd i'r swyddogion wirio'r data sy'n benodol i'w hardal ac adrodd am unrhyw bryderon erbyn diwedd Mawrth. **Gweithredu**: Pawb.

Eitem 4: Cynllun Gofodol Cymru – Nododd CM nad oes unrhyw wybodaeth wedi cael ei derbyn hyd yma ynghylch y cynnydd wrth baratoi am y 'Ddogfen Gychwyn Prosiect' (DGP) ar gyfer Strategaeth Gwastraff. Nodwyd fod swyddogion o Sir Gaerfyrddin yn arwain y gwaith hwn erbyn hyn. **Gweithredu**: CM i gysylltu â Phil Williams.

Eitem 4: Dewisiadau Rheoli Gwastraff Strategol – Cyfeiriodd CM at y drafodaeth flaenorol ynglyn â geiriad y Dewisiadau a chadarnhaodd fod y gwahanol faterion a godwyd ar draws y 3 rhanbarth wedi cael

eu trafod ar lefel Cymru gyfan. Nodwyd y diwygiadau canlynol:

- 'Llosgfa Dorfol' – awgrymwyd aileirio hyn i 'Llosgfa Dorfol gan arbed yr egni a gynhyrchir'. Nodwyd bod amheuon gan swyddogion o hyd ynghylch defnyddio'r term 'llosgfa dorfol'. **Cytunwyd** y dylai Dewisiadau 1C / 2C / 3C a 4C ddarllen *'Llosgi gan arbed yr egni a gynhyrchir'*;
- Dewis 2 – fe'i addaswyd i ddarllen *'Egni o strategaeth gwastraff ar gyfer gwastraff gweddilliol'*. **Cytunwyd**.
- Mae *'Treulio anaerobig'* wedi cael ei gynnwys yn Newis 2. **Cytunwyd**.

Eitem 6: Ffioedd Monitro Cynllunio – Nododd SM y bydd y ddeddfwriaeth yn dod i rym ar 6 Ebrill.

Eitem 6: Hyfforddiant am Dechnolegau Gwastraff newydd – Nododd AJ fod y dyddiadau ar gyfer y seminarau wedi eu pennu erbyn hyn ac y byddai pob awdurdod yn derbyn hysbysiad ffurfiol yn fuan.

3. **<u>Adroddiad am Wastraff Peryglus – Y Diweddaraf ynglŷn â'i Gymeradwyo</u>**

Bu swyddogion o'r ddau awdurdod nad ydynt wedi cadarnhau hyd yma y byddant yn cymeradwyo'r cynllun yn nodi'r canlynol:
CBS Pen-y-bont: I'w gadarnhau erbyn 28 Mawrth. **Gweithredu**: SB.
CS Ceredigion: Wedi'i gymeradwyo.

4. **<u>Contract y Grŵp Gwastraff Rhanbarthol</u>**

- **Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) 2006**
- **Rhagfynegi Deilliannau Gwastraff yn yr AMB**

Cyfeiriodd GW at yr AMB drafft ar gyfer 2006 a'r papur atodol ynglŷn â Rhagfynegi. Cytunwyd y dylid ystyried yr adroddiad drafft fesul eitem. **Cytunwyd** ar y sylwadau / diwygiadau canlynol:

- *Gwastraff Solid Dinesig (GSD)* – Mae angen cyfeirio at y newid yn niffiniad GSD. Mae newid y diffiniad yn debygol o gael effaith fawr ar ffigurau. **Gweithredu**: ML i gysylltu ag RO;
- *Rhagfynegi Deilliannau GSD* – Mae casglu gwastraff gardd yn debygol o gael effaith fawr ar ffigurau yn y dyfodol;
- *Gwastraff D ac M* – Dylid ychwanegu cafeat i nodi y dylai cymharu'r data o'r ddau arolwg gael ei drin yn bwyllog, oherwydd maint y sampl ym mhob arolwg;
- *Rhagfynegi Deilliannau Gwastraff D ac M* – Y farn oedd bod disgwyl i wastraff masnachol gynyddu, er bod y ffigurau'n dangos gostyngiad o ran gwastraff diwydiannol a masnachol;
- *Gwastraff C a D* – Dylid dileu paragraff 2.4.15;
- *Rhagfynegi* – Dylid trafod a chytuno ar hyn ar lefel Cymru gyfan. Amlygodd MW y bydd angen cwblhau rhagfynegi cyn rhedeg meddalwedd WRATE;
- Dylai'r AMB gynnwys asesiad o dwf blynyddol pob sector.

Gweithredu: CM i ddosbarthu AMB wedi'i ddiwygio i swyddogion cyn ei ddosbarthu i'r aelodau.

Cytunwyd AMB 2006 yn amodol ar gynnwys y diwygiadau uchod a chwblhau adran y 'Dadansoddiad Terfynol'.

- **Datblygu'r Elfen Ofodol yn Adolygiad Cyntaf y CGRh**
  [Nodiadau cyfarfod RPS (er gwybodaeth) / Brîff i'r Ymgynghorwyr (Nodi 'Ardaloedd Chwilio']

Cyfeiriodd CM at y dogfennau a ddosbarthwyd ac amlygodd y pwyntiau canlynol:

- Cytunwyd ar Frîff i'r Ymgynghorwyr gan y tri awdurdod sy'n cydlynu;
- Disgwylir y caiff y prosiect ei ariannu gan LlCC ac y bydd y grwpiau gwastraff rhanbarthol yn gyfrifol am reoli'r prosiect (i'w gadarnhau);
- Bydd CBS Castell-nedd Port Talbot yn gweithredu ar ran y tair rhanbarth a bydd yn sefydliad cleient ar gyfer y contract;
- Bydd y prosiect yn datblygu ac yn mireinio'r ymchwil GIS bresennol trwy ganolbwyntio ar y ddwy ardal chwilio gyntaf i ddechrau;
- Bydd adolygu'r data dechreuol (h.y. dyraniadau CDU / safleoedd REGIS) yn elfen bwysig o'r gwaith;
- Bydd cyflwyniad am yr Adroddiad Drafft ar gyfer pob un o'r tri Grŵp Swyddogion Technegol a bydd hyn yn rhoi cyfle i swyddogion fynegi eu barn. Hefyd bydd cyflwyniad am yr Adroddiad Terfynol ar gyfer pob un o'r Tri Fforwm Aelodau;
- Y nod yw cychwyn y prosiect erbyn diwedd Mawrth / dechrau Ebrill a'i gwblhau erbyn mis Medi.

- **Asesu Effaith ar Iechyd (Brîff Drafft yr Ymgynghorwyr)** – Nodwyd.

- **Amserlen**

Nododd GW y caiff y cais am estyniad chwe mis i derfyn amser y contract ar gyfer cwblhau'r Adolygiad 1af ei drafod / ei gytuno'n ffurfiol mewn cyfarfod Cymru gyfan a gynhelir ddydd Iau 9 Mawrth. **Gweithredu**: CM i gadarnhau unrhyw estyniad a gytunwyd.

5. **Y Berthynas â Fforwm Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru**

Cytunodd y swyddogion ar y canlynol o ran cydweithio yn y dyfodol:

- Byddai Cadeirydd ein Grŵp yn ymaelodi â'i Grŵp Swyddogion Technegol, ac yn rhinwedd ei aelodaeth, byddai'n mynychu cyfarfodydd o'u Pwyllgor Llywio a'r Fforwm llawn fel arsyllwr;
- Byddai cofnodion priodol y Fforymau Aelodau'n cael eu cynnwys, lle bo'n gymwys, ar yr agendâu priodol;
- Cynhelid ymgynghoriad ar y ddwy ochr mewn achosion priodol;
- Byddai Cydlynydd FfEDOC yn mynychu cyfarfodydd ein Fforwm fel arsyllwr.

6. **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Cadarnhawyd y cynhelir y cyfarfod nesaf am 10.00am ddydd Mawrth, 28 Mawrth. Nodwyd, fodd bynnag, y gallai hyn newid.

7. **Unrhyw Fater Arall**

Arfarnu Cynaliadwyedd – Nododd CM fod AA Cymru wedi gofyn i bob un o'r tri awdurdod cydlynol ddarparu rhestr o sefydliadau rhanddeiliaid sydd i'w cynnwys yn yr ymarfer 'Dangosydd Pwysoli' ar gyfer pob rhanbarth. Lluniwyd rhestr ddrafft ar gyfer sylwadau. **Gweithredu**: CM i'w dosbarthu / Y swyddogion i roi sylwadau erbyn dydd Gwener, 10 Mawrth.

Nododd SM fod cyfarfod rhwng cynrychiolwyr LlCC, Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) a chydlynwyr rhanbarthol wedi cael ei gynnal yn ddiweddar i drafod y posibilrwydd o ddefnyddio tir sy'n berchen i'r WDA a fyddai'n addas ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff. Nodwyd bod gan yr Awdurdod Datblygu gronfa ddata o safleoedd y gellid eu defnyddio os gellid dod i gytundeb o ran canfod safleoedd addas.